

Croeso i'n cylchlythyr sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i chi gan Uchelgais Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru. Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru.

## DEFAID LLAETH CYMRU

Gyda sefydlu Defaid Llaeth Cymru ar gampws Glynllifon, Grŵp Llandrillo Menai ger Caernarfon, bydd y gwaith yn dechrau'n fuan ar ganolfan arloesi a phrosesu bwrpasol.

Wrth i'r galw byd-eang am gynnyrch llaeth defaid barhau i gynyddu, nod y prosiect yw sicrhau bod Gogledd Cymru mewn sefyllfa i arwain y sector. Bydd y ganolfan yn creu swyddi, cyfleoedd hyfforddiant ac yn hyrwyddo cydweithio gyda busnesau lleol.

Mae'r cyfleuster newydd yn cael ei gefnogi gan £3.5m o Gynllun Twf Gogledd Cymru, a hwnnw wedi ei ariannu ar y cyd trwy Lywodraethau'r DU a Chymru, gyda £1m pellach gan Lywodraeth Cymru a £200k gan Grŵp Llandrillo Menai.

Mae Defaid Llaeth Cymru yn un o bedwar elfen o Hwb Economi Wledig Glynllifon, ac yn rhan o fuddsoddiad ehangach o £19.2m sydd hefyd wedi ei gefnogi trwy'r Cynllun Twf. Mae'r Hwb wedi'i gynllunio i ddatgloi potensial economaidd ardaloedd gwledig trwy annog arloesi, cynaliadwyedd ac arallgyfeirio. Mae'r elfennau eraill yn cynnwys Datblygiad Llaeth Cynaliadwy a Chanolfan Wybodaeth, gyda thechnoleg amaethyddol yn chwarae rhan ganolog ar draws y rhaglen.




Darganfod mwy

## CYMERADWYO PROSIECT PORTHLADD RHYDD I ADFYWIO LLANGEFNI



Gyda chymeradwyo prosiect Porth y Porthladd Rhydd, gwerth £19.1m, y nod yw dod â swyddi, buddsoddiad a bywyd newydd i hen safle Eastman Peboc yn Llangefni. Bydd y datblygiad yn creu gofod cyflogaeth newydd, yn cefnogi mwy na 200 o swyddi, a chyfrannu dros £65m i'r economi leol erbyn 2036.

Cyngor Sir Ynys Môn sy'n arwain y prosiect i glirio tir, creu plotiau datblygu newydd ac ehangu Parc Diwydiannol Tregarnedd. Daw'r cyllid o Gynllun Twf Gogledd Cymru, cronfa Cyfalaf Sbarduno Porthladd Rhydd Ynys Môn a phartneriaid sector preifat, er mwyn ceisio denu busnesau newydd i'r ynys.

Darganfod mwy

## HYBU CYSYLLTEDD SYMUDOL YN SIR Y FFLINT DIOLCH I GYNLLUN 4G+ O2 AC ONTIX

Mae cysylltedd symudol yng Ngogledd Cymru wedi cael hwb sylweddol yn Sir y Fflint gyda lansio safleoedd celloedd bach 4G a 5G O2. Dyma'r cyntaf o'u math yn y rhanabrth.

Unedau radio symudol wedi'u gosod ar ddodrefn stryd - fel golau stryd - yw celloedd bach. Maen nhw'n cryfhau signal symudol ac yn ychwanegu capasiti mewn ardaloedd lle mae'r galw yn uchel neu lle nad yw mastiau arferol yn addas. Mae'r safleoedd newydd, sy'n cael eu darparu gan gwmni seilwaith Ontix ar ran O2, eisoes wedi gwella'r gwasanaeth i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr yn yr ardal.

Mae hyn yn dilyn gwaith Uchelgais Gogledd Cymru, drwy brosiect digidol 4G+ sydd wedi helpu cynghorau ar hyd a lled y rhanbarth i gyflwyno 'Cytundebau Mynediad Agored' - gan sicrhau bod seilwaith symundol ar gael i gwmnïau telathrebu, fel O2.



Darganfod mwy

## PARTNERIAETH SGILIAU YN CYHOEDDI BLAENORIAETHAU CYN ETHOLIAD SENEDD 2026

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cyhoeddi rhestr o flaenoriaethau allweddol ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru cyn etholiad y Senedd eleni. Mae'r pwyslais ar yr angen i gadw sgiliau yn rhan ganolog o dwf economaidd y rhanbarth.

Mae'r Bartneriaeth yn galw am gysylltiadau cryfach rhwng cynllunio sgiliau a buddsoddiad rhanbarthol, cefnogaeth hirdymor ar gyfer seilwaith hyfforddiant, a rôl gryfach i gyflogwyr wrth lunio rhaglenni sy'n cwrdd â gwir anghenion y gweithlu.

Darllen mwy

## CEFNOGAETH I DDATBLYGU CYNLLUNIAU YNNI GLÂN

Mae mudiadau gwirfoddol a busnesau yn cael eu hannog i ymgeisio am gefnogaeth trwy Gronfa Ynni Glân Gogledd Cymru.

Gall buddsoddi mewn prosiectau ynni glân a datgarboneiddio leihau costau gweithredu, gwella effeithlonrwydd a datgloi cyfleoedd newydd. Mae'r gronfa sydd werth £24.6m, ac sy'n rhan o Gynllun Twf y rhanbarth, wedi'i chynllunio i helpu busnesau a sefydliadau gwirfoddol i gyflawni eu prosiectau ynni glân.

Ceisio

## SAFLE NEWYDD GWERTH £180M DEUNYDD INSIWLEIDDIO I SHOTTON

Mae cynlluniau ar gyfer cyfleuster gweithgynhyrchu inswleiddio carbon isel wedi symud ymlaen yn dilyn cymeradwyo achos busnes amlinellol am £14.39m o'r Cynllun Twf.

Mae hyn yn rhan o fuddsoddiad gwerth £180m fydd yn sicrhau bod Knauf Insulation Ltd. yn gallu ailddatblygu safle sy'n eiddo i Tata Steel ar hyn o bryd. Bydd y cyfleuster newydd yn defnyddio dull arloesol i gynhyrchu deunyddiau inswleiddio carbon isel sy'n gwrthsefyll tân.

Mae disgwyl i'r ffatri newydd ddod â manteision economaidd ac amgylcheddol sylweddol i'r rhanbarth - gan greu swyddi newydd mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel. Bydd hefyd yn cryfhau presenoldeb Knauf yn Queensferry ac yn y Gogledd.



Darganfod mwy



## LANSIO ACADEMI CROESO!

Mae Academi Croeso - cynllun datblygu sgiliau i gryfhau gweithlu'r sector twristiaeth a lletygarwch yn y gogledd eisoes yn cael effaith gadarnhaol. Gallwch ddarganfod mwy am Academi Croeso, sy'n cael ei arwain gan Grŵp Llandrillo Menai a'i gefnogi gan y Cynllun Twf trwy:

- Wylio - fideo ar lansiad Academi Croeso yn Theatr Clwyd
- Gwrando - ar bodlediad gyda phedwar o brif bartneriaid y prosiect, sef Grŵp Llandrillo Menai, Uchelgais Gogledd Cymru, Portmeirion a Theatr Clwyd yn trafod manylion a manteision Academi Croeso.




Darganfod mwy

## £2.95M O INNOVATE UK I NAW CYNLLUN TECH AMAETH A BWYD

Mae'r rownd ddiweddaraf o gyllid Innovate UK, cyfanswm o £2.95m, wedi'i ddyfarnu i gyfres o fentrau technoleg amaeth a thechnoleg bwyd ar draws y canolbarth a'r gogledd, gan gryfhau twf ecosystem arloesi'r rhanbarth.

Mae'r buddsoddiad yn rhan o'r Clwstwr Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd, rhaglen sydd wedi'i chynllunio i ysgogi arloesedd yn y sectorau hyn. Mae'r clwstwr yn cael ei gydlynu gan bartneriaeth ranbarthol dan arweiniad Tyfu Canolbarth Cymru a'i gyflawni drwy Uchelgais Gogledd Cymru, M-SParc, AberInnovation, AMRC Cymru, Innovate UK a Llywodraeth Cymru.




Darganfod mwy

## FFORWM CYFATHREBU NEWYDD I WELLA CYSYLLTEDD AR DRAWS Y GOGLEDD

Bydd cryfhau rhwydweithiau symudol, mynd i'r afael â heriau cyfathrebu digidol a hyrwyddo trawsnewid digidol y rhanbarth ar frig agenda Fforwm Telathrebu Rhanbarthol Gogledd Cymru a lansiwyd yn ddiweddar.

Mae'r fforwm newydd yn dod ag awdurdodau lleol, llywodraeth, arweinwyr diwydiant, gwasanaethau brys, gweithredwyr telathrebu a thrafnidiaeth, a Pharc Cenedlaethol Eryri at ei gilydd i helpu i lunio dyfodol seilwaith symudol a band eang Gogledd Cymru.



Darganfod mwy

## BUDDSODDIAD I EHANGU CANOLFAN PEIRIANNEG AC ARLOESI WRECSAM

Mae buddsoddiad o £3m i wella CanfodAu - Canolfan Peirianneg ac Arloesi, Prifysgol Wrecsam, wedi'i gymeradwyo, gan gryfhau cynlluniau i hybu gweithgynhyrchu uwch yng Ngogledd Cymru.

Yn dilyn ariannu CanfodAU, bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn buddsoddi £1.5m pellach yn y prosiect Gweithgynhyrchu a Gallu Busnes Cymdeithas 5.0, ochr yn ochr â £1.5m o MEDR Llywodraeth Cymru - sy'n cefnogi ymchwil ac arloesi ar draws y trydydd sector.

Nod y prosiect yw creu swyddi safon uwch, cefnogi busnesau carbon isel a sicrhau dros £4m ar gyfer yr economi ranbarthol.

Darganfod mwy

## £10.4M I GEFNOGI CYNLLUN ADFYWIO AMLWCH



Mae prosiect adfywio gwerth £10.4m ar gyfer Amlwch wedi cael hwb gyda chymeradwyo ei achos cyfiawnhad busnes. Mae'r penderfyniad yn golygu gall y cynllun symud i'r cam nesaf.

Bydd y prosiect yn adnewyddu hen adeilad y derfynfa ym Mhorth Amlwch ac yn creu deg uned fusnes newydd ar y stâd ddiwydiannol gerllaw, yn dilyn cytuno ar bron i £7m o gyllid y Cynllun Twf.

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn arwain, gyda disgwyl i'r datblygiadau gefnogi 95 o swyddi, creu 2,300m$^2$ o ofod masnachol newydd a rhoi hwb £33.9m i'r economi ranbarthol erbyn 2036.

Darganfod mwy

## CEFNOGI DATBLYGWYR LLEOL GYDA'U STRATEGAETHAU SGILIAU

Gyda nifer gynyddol o brosiectau ar raddfa fawr ar y gweill yng Ngogledd Cymru, yn benodol yn y sector ynni carbon isel, mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi gweithio gyda datblygwyr i greu eu strategaethau sgiliau, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol, polisïau sgiliau a phrosiectau rhanbarthol eraill.

Mae gweithio gyda RWE a GBE-N ar eu prosiectau nhw wedi bod yn enghraifft o arfer dda, gan fod y ddau sefydliad yn defnyddio strwythurau llywodraethu'r Bartneriaeth Sgiliau i symud eu prosiectau ymlaen, gan sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth.

## UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU YN PENODI YMGYNGHORWYR ANWEITHREDOL NEWYDD

Mae Dave Penrith a Nick Bennett wedi'u penodi'n ymgynghorwyr anweithredol i Uchelgais Gogledd Cymru. Gyda'i gilydd, mae ganddynt gyfoeth o arbenigedd ym maes prosiectau cyfalaf, llywodraethu, peirianneg, trawsnewid digidol a datblygu economaidd, fydd o help wrth hyrwyddo twf cynaliadwy a denu buddsoddiad i'r rhanbarth.

Byddant yn chwarae rhan flaenllaw fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd wrth ffurfio Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd, i gynrychioli busnesau a chyflogwyr Gogledd Cymru.





Darganfod mwy

## CYNNYDD AR GYNLLUN CYDNERTH

Mae cynnydd sylweddol wedi bod ar Cydnerth - un o brosiectau'r Cynllun Twf. Mae ceblau bellach wedi'u tynnu trwy ffosydd ger y safle ym Marc Cybi, Caergybi i ymestyn seilwaith cynllun ynni llanw Morlais ac i gysylltu â'r Grid Cenedlaethol. Mae hwn yn gam pwysig i'r prosiect fydd yn galluogi cynyddu capasiti'r grid yn lleol o 18MW i 240MW - gan sicrhau dyfodol cynllun Morlais.

## CYMERADWYAETH FFURFIOL I BARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM

Mae Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan lywodraeth y DU a Chymru - gan nodi dechrau rhaglen 10 mlynedd i roi hwb i'r economi yn yr ardal.

Mae hyn yn golygu bod gwaith bellach wedi dechrau o ddifri, gyda rhaglen o grantiau, hyfforddiant, gwelliannau seilwaith a chymorth busnes ar gael i helpu i ddatgloi cyfleoedd newydd i gyflogwyr, buddsoddwyr a chymunedau lleol.

Bydd y fenter yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu uwch, arloesi, sgiliau a seilwaith, gyda'r nod o greu swyddi o ansawdd uchel a chryfhau safleoliad yr ardal fel hwb ddiwydiannol sylweddol.



Darganfod mwy

## DIGWYDDIAD FFERMIO CLYFAR GOGLEDD CYMRU

Yn ddiweddar, croesawodd Fferm Derwydd, Corwen ffermwyr a chynrychiolwyr y sector gweledig o bob cwr o'r rhanbarth, i ddigwyddiad i hyrwyddo rôl technoleg ddigidol wrth gefnogi gwaith dydd i ddydd.

Cafwyd sgyrsiau byr a sesiynau ymarferol fel rhan o'r digwyddiad  i dynnu sylw at enghreifftiau o synwyryddion LORaWAN (Long Range Wide Area Network), dangosfyrddau data a chysylltedd clyfar, gan ddangos sut y gall yr offer yma wneud ffermio'n fwy effeithlon, cynhyrchiol a chynaliadwy.

Mentera oedd yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad fel rhan o brosiect Treialon Fferm Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cael ei ariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.






## CYMORTH I GYN GARCHARORION DDATLBYGU SGILIAU

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a CEF Berwyn yn cydweithio i  sicrhau bod pobl sy'n gadael y carchar yn gallu cyfrannu yn gadarnhaol at weithlu'r rhanbarth ar adeg pan fo llawer o sectorau yn wynebu prinder sgiliau. Trwy gysylltu hyfforddiant yn y carchar ag anghenion y farchnad lafur, mae'r bartneriaeth yn helpu i baratoi unigolion ar gyfer cyflogaeth wedi iddynt gael eu rhyddhau.

Mae'r sector  adeiladu eisoes wedi dangos yr hyn sy'n bosib, ac mae cyfleoedd yn ehangu ar draws sectorau eraill gan gynnwys gweithgynhyrchu, twristiaeth a lletygarwch, gyda chyfleusterau a hyfforddiant yn CEF Berwyn yn helpu dysgwyr ddatblygu sgiliau ar gyfer gweithle.

Mae podlediad wedi ei recordio sy'n rhoi sylw i'r cynllun.

Darganfod mwy